Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council




# CYFLE SINEMA

Promenâd y Gorllewin, y Rhyl LL18 1HB

## Gwybodaeth am Ddatganiad o Ddiddordeb

*Mawrth 2025*

# CYFLE SINEMA
Promenâd y Gorllewin, y Rhyl LL18 1HB

## Gwybodaeth am Ddatganiad o Ddiddordeb
*Mawrth 2025*

Dros £150 miliwn wedi'i fuddsoddi ers 2015 ar hyd glan y môr yn y Rhyl

1,816,000 o ymweliadau twristiaeth â'r Rhyl bob blwyddyn

Amcangyfrif o £252 miliwn o refeniw twristiaeth bob blwyddyn

*"Mae'r Rhyl yn unigryw. Mae ganddi orffennol hynod sy'n rhoi iddi hanes arbennig, presennol sy'n cyfleu gwytnwch y lle a'i chymunedau yn wyneb heriau economaidd a chymdeithasol sylweddol, a ffydd, gobaith ac egni mae modd ei ddefnyddio i greu a sbarduno dyfodol y dref. Mae gan Lywodraethau Cymru a'r DU hyder yn ein gweledigaeth ac maent wedi pennu'r Rhyl yn lle ar gyfer twf. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn adeiladu ar ei hanes yntau o gyflawni gan sicrhau cyllid Balchder Bro ac Amgylchedd Naturiol sylweddol gan Lywodraeth y DU a chyllid Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi i'r dref.*

*Rydym ni'n falch o'r buddsoddiad ar lan y môr yn y Rhyl dros y blynyddoedd diwethaf wrth adeiladu cyfleuster hamdden SC2, datblygu gwesty a bwyty a chanolfan fwyd a digwyddiadau Marchnad y Frenhines. Mae miliynau o bunnoedd wedi'i fuddsoddi yn rhaglen amddiffyn yr arfordir, sy'n dod i ben yn 2025 ac yn sicrhau diogelwch a llewyrch hirdymor i'r dref.*

*Mae'r Cyngor yn gyffrous o gyflwyno cyfle i redeg sinema i'r farchnad rentu ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r gweithredwr newydd fel landlord a phartner adfywio i sicrhau llwyddiant y cyfleuster ar gyfer pobl y Rhyl a'r ymwelwyr sy'n dod i fwynhau ein tref glan y môr bob blwyddyn."*

Y Cynghorydd Jason McLellan – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd a Tony Ward – Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Ddinbych

*Mae Bwrdd Tref y Rhyl yn falch iawn o gefnogi'r cyfle cyffrous i gael gweithredwr newydd ar gyfer sinema'r Rhyl.*

*Mae'r fenter hon yn cyd-fynd yn berffaith ag ein gweledigaeth 10 mlynedd i adfywio'r Rhyl fel canolbwynt cynhwysol, llewyrchus, llawn bywyd ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.*

*Rydym ni'n ffodus o fod â rhwydwaith cryf o adnoddau, sy'n cynnwys partneriaethau ar draws y sectorau busnes a chyhoeddus a'r trydydd sector, sy'n cynnig amgylchedd cefnogol a chydweithredol i fentrau newydd.*


*Mae gan Sinema'r Rhyl botensial i fod yn rhan ganolog o'n hymdrechion ehangach i adfywio'r dref, gan wella ei chynnig diwylliannol a chymdeithasol wrth roi hwb i'r economi leol.*

*Rydym ni wir yn annog rhai sydd â diddordeb i edrych yn fanylach ar y cyfle hwn ac ymuno â ni i siapio dyfodol disglair a chyffrous y Rhyl."*

Adam Roache – Rheolwr Gyfarwyddwr – CPD y Rhyl 1879 a Chadeirydd Bwrdd Tref y Rhyl

*"Gall sinema yn y Rhyl fod yn gatalydd i adfywio economaidd a chymdeithasol yn lleol os yw wedi'i gyfuno â strategaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned a phrofiadau arloesol i ymwelwyr. Mae sinemâu'n ganolbwyntiau diwylliannol sy'n gallu ysgogi twf economaidd. Maent yn gallu darparu ar gyfer gofynion yr 21ain ganrif a ffynnu ymysg opsiynau eraill o ran adloniant" Entertainment Solution Services."*

Rob Arthur – Partner Sefydlu a Chyfarwyddwr Entertainment Solutions Services Ltd. (ESS)



## Rhagarweiniad:

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn chwilio am denant yn bartner i weithredu cyfleuster sinema sydd â phopeth sydd ei angen ac sy'n gweithredu ar hyn o bryd, ar Bromenâd y Gorllewin yn y Rhyl yn Sir Ddinbych.

## Y Cyfle:

- Gan Gyngor Sir Ddinbych mae'r rhydd-ddaliad ar safle'r sinema sydd i'w weld ag ymyl a thrawslinellau coch yn Atodiad 1 ynghlwm â'r ddogfen hon.
- Mae cynlluniau'r sinema ar hyn o bryd i'w gweld yn Atodiad 2.
- Cafodd yr adeilad oedd yn cael ei adnabod tan yn ddiweddar fel sinema 'Vue' ei gwblhau yn 1995.
- Adeiladwyd y cyfleuster gan Awdurdod Lleol Cyngor Bwrdeistref Rhuddlan oedd yn bodoli ar y pryd, a Chyngor Sir Ddinbych yn olynydd iddo.
- Ar ôl cwblhau'r adeilad, gosodwyd popeth oedd ei angen y tu mewn gan Apollo Cinemas i fod yn sinema weithredol â phum sgrin.
- Roedd Apollo Cinemas (Vue Cinemas wedyn) yn defnyddio'r adeilad ar brydles 25 mlynedd o hyd ar delerau atgyweirio mewnol am rent marchnad o £43,750 y flwyddyn erbyn diwedd y brydles.
- Cytunwyd ar weithred atodol yn 2010 i ganiatáu i addasiadau gael eu gwneud i'r safle (DS mae'r cynllun fel mae ar hyn o bryd i'w weld yn Atodiad 2).
- Ar ôl parhau â'r brydles y tu hwnt i'w chyfnod gwreiddiol gyda chaniatâd y Cyngor, mae Vue bellach wedi penderfynu dod â hi i ben a gadael y sinema erbyn 29 Ionawr 2025.
- Mae'r Cyngor, fel y perchennog a'r landlord, yn awyddus i gychwyn trafodaethau cadarnhaol gyda phartner addas fel tenant i adlewyrchu sut mae'r safle wedi'i osod a'r buddsoddiad cyfalaf posib' yn y cyfleuster i sicrhau ei ddyfodol.
- Mae sefyllfa ffafriol o ran cyllid grant yn gysylltiedig â'r Rhyl ac mae rhai sydd â diddordeb yn cael eu hannog i edrych ar yr opsiynau:

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du.aspx

Bargen Dwf Gogledd Cymru, Rhaglen Carbon Isel - https://uchelgaisgogledd.cymru/ynni-carbon-isel/ynni-lleol-blaengar/

Banc Datblygu Cymru - https://bancdatblygu.cymru/

Offeryn Canfod Cyllid Busnes Cymru - https://businesswales.gov.wales/businessfinance/cy

Cronfa Benthyciadau Trawsnewid Trefi - https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/adfywio/trawsnewid-trefi/benthyciadau-trawsnewid-trefi.aspx

## Y Safle:

Mae'r safle mewn lle amlwg iawn ar Rodfa'r Gorllewin, ar hyd y promenâd ger cyfleuster hamdden newydd SC2, sy'n cael ei weithredu gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf., a Phentref Plant y Rhyl.

Mae maes parcio talu ac arddangos ar safle'r Tŵr Awyr sydd yn union wrth ei ymyl – 158 o leoedd a 6 lle i bobl anabl.

Mae'r safle o fewn pellter cerdded i orsaf drenau'r Rhyl a'r brif orsaf fysiau.




**Title**

**Graddfa / Scale:** 1:1240

**Canol / Centre:** 300527, 381531

**Dyddiad / Date:** 2025-02-25 12:22:07

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894 © Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894



## Adeilad y Sinema:

Cynlluniau'r lloriau yn Atodiad 2

## Gosodion:

Cyfleuster sinema gweithredol sy'n cynnwys taflunwyr sinema digidol 4K Sony, systemau sain amgylchynol digidol, sgriniau 3D RealD.

Mae pum ystafell â sgrin ar y llawr gwaelod sy'n cynnig seddi fel a ganlyn:

Sgrin 1 146 o seddi gan gynnwys rhai mwy moethus yng nghefn yr awditoriwm a 2 le i gadeiriau olwyn

Sgrin 2 142 o seddi gan gynnwys rhai mwy moethus yng nghefn yr awditoriwm a 2 le i gadeiriau olwyn

Sgrin 3 90 o seddi a 2 le i gadeiriau olwyn

Sgrin 4 100 o seddi a 2 le i gadeiriau olwyn

Sgrin 5 90 o seddi a 2 le i gadeiriau olwyn

Mae rhestr fanwl o osodion y sinema i'w gweld yn Atodiad 3.

Mae copïau o'r adroddiadau arbenigol canlynol yn ymwneud â'r adeilad ar gael ar gais:

1. Cyflwr / gwaith ar yr adeilad
1. Cyfarpar taflunio
2. Cyfarpar sain

## Cyffredinol:

Mae ardal gonsesiynau a thocynnau gyda storfa fechan ac ardal caffi-bar hefyd yn y cyntedd.

Mae sgriniau 1 i 5 ar y llawr gwaelod.

Yng nghefn yr adeilad ger y coridor mynediad at y sgriniau mae estyniad i ardal y bar a ychwanegwyd at y sinema yn 2010.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad yn un deulawr gyda lle ar y llawr uchaf ar gyfer taflunio, swyddfa rheolwr, cyfleusterau i staff a lle ychwanegol gan gynnwys ystafell arian parod a sêff yn ogystal â lle hamdden bach i gwsmeriaid gyda byrddau a chadeiriau.

Mae agoriad i ardal falconi fach y tu allan ar ddecin pren ar ben blaen y sinema ar y llawr cyntaf.





## Trethi Busnes:

Gwerth trethiannol o £34,500 a'r cyfraddau sydd i'w talu ar hyn o bryd yn £19,389 y flwyddyn.

DS – efallai y bydd modd i feddiannydd newydd hawlio hyd at 40% o ryddhad i drethi sydd i'w talu dan gynllun Rhyddhad Trethi i Fusnesau Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden, cyhyd nad ydynt wedi mynd dros y trothwy.

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/busnes/ardrethi-busnes/ardrethi-busnes.aspx

## Rhagor o wybodaeth am y cyfle:

Gweld yr adeilad ac ymholiadau cyffredinol am y cyfle:

Mae unrhyw eglurhad sydd ei angen am y cyfle hwn i'w gael drwy gysylltu â'r adran Eiddo:
property.services@denbighshire.gov.uk

Mae posib' i rai sydd a diddordeb gael mynediad i'r eiddo ar 13 a 20 Mawrth 2025 yn y prynhawn. Cysylltwch â'r Cyngor gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod i drefnu ymweliad.

## Cynllunio:

Mae'r eiddo ar hyn o bryd yn addas i ailagor fel sinema ac mae caniatâd cynllunio ar gael ar hyn o bryd i wneud hynny.

Dylai rhai sydd â diddordeb drafod yn uniongyrchol â'r Swyddfa Gynllunio Leol.

Email: planning@denbighshire.gov.uk

Tel: 01824 706727

## Trwyddedu:

Gallwch gyfeirio ymholiadau at y Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/busnes/ffurflenni/cysylltu-a-ni-trwyddedau.aspx

Tel: 01824 706842







## Y Lleoliad:

Mae'r sinema o fewn Ardal Adfywio Arfordir Gogledd Cymru ac mae gyferbyn â Chanolfan Fwyd a Digwyddiadau Marchnad y Frenhines – adeilad newydd sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych a fydd yn agor yn 2025.

Mae gwaith datblygu sylweddol wedi'i wneud ar Bromenâd y Rhyl ers 2015 gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth ag ION Developments, sydd ar y cyd â phrosiectau adfywio unigol gan y Cyngor wedi denu dros £150 miliwn o fuddsoddiad. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

### Projects include:

- Marchnad y Frenhines
- Dau westy newydd – Premier Inn, Travelodge a thŷ tafarn Marston's
- Theatr y Pafiliwn sydd wedi'i hadnewyddu'n llwyr, gydag estyniad newydd a chyfleusterau bwyta o'r radd flaenaf
- Cyfleuster hamdden a pharc dŵr newydd SC2, wrth ymyl safle'r sinema
- Cynlluniau amddiffyn arfordir y Rhyl
- Pont y Ddraig a gwelliannau i'r Harbwr
- Datblygiad tai newydd Gerddi Heulwen

Mae rhagor o fanylion am brosiectau unigol uchod i'w gweld ar:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/adfywio/y-rhyl/adfywior-rhyl.aspx

Cyn hir, bydd gwaith yn dechrau ar gynlluniau Balchder Bro a'r Amgylchedd Naturiol yn y Rhyl sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth y DU – cyfanswm o £12 miliwn o fuddsoddiad – ac mae hyn yn cynnwys prosiect Parth Cyhoeddus Canol Tref y Rhyl a phrosiect Promenâd Canol y Rhyl a fydd yn gwella hygyrchedd a chysylltedd rhwng canol y dref a'r promenâd a'r traeth.

Mae'r manylion i'w gweld drwy'r ddolen isod:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/datblygu-cymunedol/cronfa-ffyniant-bro/rownd-3/rownd-3-cynigion-prosiect-llwyddiannus.aspx

# Gwaith ar Amddiffynfeydd Morol:

Mae rhagor o waith sylweddol yn cael ei wneud ar y promenâd ar hyn o bryd i wella mynediad i'r traeth a gosod amddiffynfeydd morol angenrheidiol – mae disgwyl iddo ddod i ben yn 2025.

Mae'r manylion i'w gweld trwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/amddifyn-yr-arfordir/canol-y-rhyl/galeri.aspx

# Y Dref:

Mae'r Rhyl yn dref glan y môr draddodiadol, Fictoraidd sydd ar arfordir y gogledd.

Mae hi tua 49 milltir o Lerpwl a 33 milltir o Gaer. Mae'n hawdd ei chyrraedd ar y trenau cyflym i Gaergybi a Llundain.

Mae cefnffordd yr A55 yn gwasanaethu'r Rhyl, sy'n cysylltu rhwydwaith traffyrdd gogledd-orllewin Lloegr â phorthladd Caergybi a'i wasanaethau llongau teithwyr a nwyddau i Iwerddon.

Ar hyn o bryd, mae poblogaeth o 26,992 o drigolion ganddi (Cyfrifiad 2021) a nifer yr ymweliadau twristiaeth blynyddol yw 1,816,000 (ffigyrau 2023), ac mae amcangyfrif bod £252 miliwn o refeniw twristiaeth blynyddol (ffigyrau 2023).


Mae fideo yn arddangos y Rhyl i'w gweld yma:
https://youtu.be/GEs9CD4uIpo

## Gweledigaeth Tref y Rhyl:

Mae gwybodaeth am weledigaeth y Cyngor ar gyfer canol tref y Rhyl i'w gweld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/adfywio/y-rhyl/gweledigaeth/canol-tref-y-rhyl-gweledigaeth.aspx

## Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi Llywodraeth y DU:

Mae £20 miliwn wedi'i sicrhau ar gyfer y Rhyl o gronfa'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi gan Lywodraeth y DU dros y 10 mlynedd nesaf. Mae Bwrdd Tref y Rhyl wedi'i sefydlu – cynghrair o arweinwyr busnes a chymunedol sydd wedi'i chefnogi gan gynrychiolwyr etholedig a swyddogion sector cyhoeddus. Mae'r Bwrdd wrthi'n datblygu gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y Rhyl a chynllun buddsoddi cychwynnol dros 3 blynedd.










# Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb:

Dylai datganiadau o ddiddordeb, gan gynnwys yr holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol eraill, gael eu cyflwyno erbyn hanner dydd (12pm) ddydd Llun, 21 Mawrth drwy e-bost at:

gwasanaeth.eiddo@sirddinbych.gov.uk

Dylai cyflwyniadau fod wedi'u marcio'n glir yn y testun â: CYFRINACHOL – Datganiad o Ddiddordeb yn y Sinema, Promenâd y Gorllewin, y Rhyl – at sylw'r Rheolwr Prisio ac Ystadau

Bydd yr holl ddeunydd sy'n cael ei gyflwyno'n cael ei drin gyda sensitifrwydd masnachol cyfrinachol a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cwblhau'r ymarfer hwn o ddod o hyd i denant yn bartner ar gyfer sinema'r Rhyl.

## Deddf Camliwio 1967

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi rhybudd:

1. Nad yw'r manylion hyn yn cynnwys cynnig na chontract, nac yn cynnwys unrhyw ran o gynnig na chontract.
2. Bod pob datganiad sydd yn y manylion hyn yn cael eu gwneud heb gyfrifoldeb ar ran y Cyngor Sir.
3. Na ddylid dibynnu ar unrhyw ddatganiadau yn y manylion hyn am yr eiddo fel ffeithiau.
4. Bod rhaid i unrhyw ddarpar denantiaid eu bodloni eu hunain bod pob un o'r datganiadau sydd yn y manylion hyn yn gywir, drwy archwilio'r eiddo neu ryw fodd arall.
5. Mai bwriad y cynllun lleoliad sydd yn y ddogfen hon yw galluogi'r darpar ymgeiswyr i weld lleoliad yr eiddo yn unig. Nid bwriad y cynllun yw nodi maint y daliad sydd i'w drosglwyddo, ac mae wedi'i eithrio'n benodol o'r contract.
6. Nad yw'r Cyngor Sir yn gwneud nac yn rhoi unrhyw sylwadau na gwarantiad o ran yr eiddo.

